Historian's Office Library

The Church of Jesus Christ
of Latter-day Saints

Call No. Rare M205.5 U19W v.8 1855

31

Presented to
The Church Historian Office
Great Salt Lake City, U. S.
by the Author,
Dan Jones.

Udgorn Seion Office
Swansea, Wales,
Janr. 7 1856.

Digitized by the Internet Archive
in 2011 with funding from
Corporation of the Presiding Bishop, The Church of Jesus Christ of Latter-day Saints

http://www.archive.org/details/trillythyroddiwr00jone

# UDGORN SEION,

NEU

# SEREN Y SAINT;

YN CYNNWYS

EGWYDDORION "GORUCHWYLIAETH CYFLAWNDER YR AMSEROEDD,"

MEWN

TRAETHODAU, LLYTHYRON, HANESION, PRYDYDDIAETH, &c.

"A mi a osodais wylwyr arnoch chwi, gan ddywedyd, Gwrandewch ar sain yr udgorn."—JER. VI, 17.

"Holl drigolion y byd, a phreswylwyr y ddaear, gwelwch pan gyfodo efe faner ar y mynyddoedd, a chlywch pan udgano ag udgorn."—ESA. XVIII, 3.

CYFROL VIII.

---

ABERTAWY:
ARGRAFFWYD, CYHOEDDWYD, AC AR WERTH GAN D. JONES.
1855.

Tra y gwelir ymbleidiau, cenfigenau, a gau-grefyddau wedi gwau sachlen ddu dew i amdoi wynebpryd awyrgylch gwlad anghrist â chaddug, drwy yr hon ni thewyna belydr o oleuni "Haul cyfiawnder" yn uniongyrchol, arweinia *Seren y Saint* bererinion blant y nef o gam i gam drwy ddyrys anialwch y byd i'w nhoddfa glud i blith "sêr y boreu" yn Seion.

Tra y mawrygwn ein braint fwy-fwy, o gyfrol bwy gilydd o gael cyd-filwrio a'n cyd-filwyr, crefwn eu cymhorth i udganu yn groewach a phereiddiach ar *ddechreu* ein cyfrol ddyfodol, ar nad pwy udganwr a'i diwedda.

"Adref, adref, blant yr Arglwydd,
Galwad sydd i dd'od yn ebrwydd,"

fydd blaenaf, uchaf, ac olaf lais eich HUDGORN, nad pwy a fo, nes adref y delo y gwanaf o blant Seion. Sain cywir, sŵn clir, a grymusder y gwir i dreiddio i galonau ein darllenwyr rhodded Nêr i bwy bynag a chwytho drwy HUDGORN SEION yw, ac a fydd taeraf ac olaf weddi, eich—

GOLYGYDD.

# TRI LLYTHYR

ODDIWRTH

# CAPT. D. JONES,

AC UN ODDIWRTH

## MRS. LEWIS, (O GYDWELI),

O

# DDINAS Y LLYN HALEN.

---

### AT Y DARLLENWYR.

DAETH y llythyron canlynol i law ar yr 21ain o Fedi, wedi i ni argraffu yr UDGORN, ynghyd â'r "Cyfarwyddiadau i Ymfudwyr;" a meddyliasom mai gwell oedd eu cyhoeddi yn ddioed; a chan obeithio y dosperthir llawer, fel na byddo ein haberth yn ormod, anturiwn roddi hyn am hanner y pris, sef DIMAI. Dylai yr holl Saint fod yn ddosparthwyr, a bod yn awyddus i werthu llawer heb ddysgwyl gwobr gan neb ond Duw. Pan yn myned â hyn i'r wasg heddyw, derbyniasom lythyr arall o'r un lle, oddiwrth ein hanwyl frawd Mr. Thomas Jeremy (o Llanybyther), yr hwn a gaiff ymddangos yn yr Udgorn nesaf, os cawn le.

*Merthyr, Medi* 24, 1850. J. DAVIS.

---

### LLYTHYR CAPT. JONES AT W. PHILLIPS.

*Dinas y Llyn Halen, Tach.* 20, 1849.

ANWYL FRAWD PHILLIPS,—Yn ddamweiniol cefais y cyfle i anfon y llythyr hwn o'r eithafion hyn, yn y tymmor oeraidd hwn, dros y Mynyddoedd Creiglyd. Rhai o'r milwyr Americanaidd, a

glywais yn awr, sydd yn myned i'r Taleithiau, a byddant barod i gychwyn cyn y gorphenaf y llythyr hwn. Tiriasom yma yn iach a chysurus ar y 26ain o'r mis diweddaf, a chawsom ein boddloni yn fawr ar bob peth yma ar y cyfan, yn dymmorol ac yn ysbrydol, yn gymmaint gwell nag y dywedwyd i ni ag oedd doethineb a mawredd Solomon tu hwnt i amgyffred brenines Sheba. Dyma braidd yr oll a allaf gael amser yn awr i'w ddweyd am y lle; cewch hanes helaethach y gwanwyn nesaf. Mae y Cymry oll wrth eu bodd, ac yn ymuno i gauad i mewn oddeutu 600 neu 700 o erwau o dir, ar lan afon yr Iorddonen orllewinol hon, oddeutu pedair milltir o'r Ddinas, yr hon wlad a elwir *Cymry Newydd*, tir mor ffrwythlon a hardd â dim o dan haul y gorllewin fyd. Nid yw yn costio dim, ond yn rhad i bawb, a chymmaint a allo pawb lafurio.

Syndod y fath fawr waith a wnaed mewn blwyddyn yn y Dyffryn gwych hwn! Ddoe cefais y pleser o fedyddio yn agos i ddeugain o'r Cymry yma, er adnewyddu eu cyfammod a selio eu ffyddlondeb i Arglwydd Dduw Israel; a mawr y llawenydd a'r gorfoledd oedd yn ein plith drwy'r dydd! Ein hunig ofid oedd, am nad oedd miloedd ychwaneg o'n cydgenedl anwyl yma; ïe, pob onest ei galon, gyda ni. Sefydlasom Gangen Gymreig o Eglwys i Dduw, i gynnal eu haddoliad yn yr iaith yn yr hon eu ganwyd, a Thomas Jeremy yn llywydd, a Daniel Daniels a Rice Williams yn gynghorwyr. Yr wyf wedi gosod pawb o'r Cymry mewn sefyllfaoedd cysurus, i gael digon o waith am aur, arian, neu ymborth, &c. Cyflogau y gweithwyr yw 6s. 6c. yn y dydd, y crefftwyr o 10s. i 12s. y dydd; a phe buasai holl grefftwyr Cymry yma, buasai rhedeg ar eu hol gan bobl ag aur yn eu dwylaw i'w talu. Mae y Dyffryn hwn mor iach, fel na chlywais am haint, na chlefyd, nac afiechyd, er pan wyf yma. Clywais ein hanwyl Lywydd Brigham Young yn dweyd yn gyhoeddus, nad oedd yn cofio pa bryd y claddwyd neb yma, ac ni chlywais son am y fath beth er pan wyf fi yma. Yr wyf fi yn adeiladu ty yn y Ddinas, ar yr etifeddiaeth a barotowyd i mi cyn cyrhaedd; cefais lot, neu erw a chwarter, i bob un o'r Cymry a ddewisai, yn y Ddinas, i adeiladu arno hefyd. Cafodd Mrs. Lewis lot baradwysaidd ar gyfer y Deml, ac y mae ganddi dy arno braidd wedi ei orphen eisoes, heblaw fferm yn y fan a nodais; ac y mae hi, ynghyd â'r oll o'r cwmni, yn mawr lawenhau eu bod wedi dod i'r fan hon.

Mae ereill yn adeiladu tai yn y Ddinas, sef o'r Cymry, a phawb yn llon eu gwedd. Mewn gair, ac ar frys mawr, deallwch fi yn dweyd fod pob peth yn dda ar bawb yma, a llawnder o fwydydd, a chystal siopau ag a welir yn Nghymru.

O'm rhan i, serch y dyweda y byd mai myfi sydd yn cael yr holl hawddfyd ar gost y Saint, dywedaf fod pawb o'r Cymry, ond fy hunan, yn cael gorphwys yma mewn hawddfyd i'w gwasanaethu eu hunain, ac i wneyd eu hunain yn hapus, pan nad oeddwn i yma wythnos cyn y cynghorwyd fi i barotoi i fyned o wyth cant i fil o filltiroedd yn mhellach i'r de orllewin, ar genadiaeth dros Dduw, a hyny ar fy nghost fy hun, dros benau mynyddoedd eiryawg drwy lwythau o Indiaid anwariadd, ar hyd ffordd na throediodd dyn gwyn o'r blaen. Y boreu fory yw'r awr i gychwyn; ni wn pa bryd y dychwelaf. Fy nghenadiaeth yw cael allan y gangen hono o hîl Gomer a elwir y Madogiaid; cafwyd eu hanes, ac âf yn bwrpasol i'w cyrchu i gorlan y Bugail da. O Saint, gweddiwch am fy llwyddiant ac amddiffyniad fy mywyd yn mhl.th anwariaid gwaedlyd. Fe glywch ychwaneg pan y dychwelwyf.

Cefais i, a'r holl Gymru, roesawiad mawr i'r Dyffryn; daeth y llywyddion i'n cyfarfod filltiroedd i'n croesawu, a mawr y llawenydd. Pob peth yn dda.

Mae fy lludded yn nychu fy iechyd o hyd, fel nad wyf nemawr gwell na phan gychwynais o Gymru; etto, nertha Duw fi yn wyrthiol yn ol y dydd. O, Saint anwyl, gweddiwch droswyf yn awr; canys y mae fy ngwaith o hyd yn mwyhau. O na bai genyf gyfle i'ch hysbysu o'r gobeithion sydd o'n blaen ar fyr i'w cyflawni i chwi, eithr nid allaf. Byddwch amyneddgar dipyn etto. Mae fy ngwraig a'm teulu yn iach, ac yngbyd â'r holl Saint, yn cofio atoch chwi a'r Saint anwyl yna. Ffarwel yn awr, frawd hoff ac oll, ar frys mawr.

Eich brawd,

D. Jones.

## CAPT. JONES AT W. PHILLIPS.

*Dinas y Llyn Halen Fawr, Ebrill* 12, 1850.

Anwyl Frawd Phillips,—Ychydig linellau yn unig a allaf ysgrifenu atoch yn awr; cewch weled yr Epistol gan y brawd Davis, yr hwn a ddywed lawer droswyf; etto, gobeithiaf, ïe, a gweddiaf yn feunyddiol ar Dduw i'ch cadw chwi rhag y drwg sydd yn eich amgylchynu, a rhoddi i chwi ddylanwad ar yr holl Saint, megys y mae i fugail da ar ei braidd, fel y galloch eu cadw mewn undeb, cariad, cynnydd, a llwyddiant parhaus; a gobeithiaf, meddaf, fod lluoedd o'r rhai a'm herlidient am y dyn gwaethaf yn y wlad, cyn hyn wedi ufyddhau i efengyl fy Arglwydd i, dod i fy adnabod yn well, ac i'ch caru chwithau; a hyny a bara i minnau garu y casaf o honynt, ïe, a'u cofleidio, pe gwelwn hwynt yma. Ofnaf nad yw y wladwriaeth yn rhoddi nemawr nodded i chwi; eithr, os felly, na ddigalonwch, y mae Brenin y breninoedd yn gofalu drosoch chwi; efe a'ch cynnal, os byddwch ostyngedig a duwiolfrydig ger ei fron Ef. Nac anghofiwch weddio arno, a'i wasanaethu. Ni allwch lanw eich swydd bwysig yna, heb ei gymhorth. O, mor dda fyddai genyf weled eich wyneb yma, a chael adrodd i'n gilydd ein helyntion a'n gobeithion, ond tebyg mai yna y cawn hyny gyntaf. Diau fod tylodi, heintiau, a marwolaethau o bob math, ynghyd â chasineb y byd, yn peri llawer o finder i chwi a'r Saint; eithr llawenhewch yn hyn, y mae yma waredigaeth oddiwrth bob drwg ond angeu, ac anfynych iawn yr ymwela brenin y dychryniadau â'r lle hwn. Etto, nid y'm yma heb ein profi a'n temtio hyd yr eithaf, er yn wahanol i yna; ac y mae rhai, fel mae yn ofid dweyd, hyd y nod o'r Cymry, yn ymollwng i ddylanwadau gau, yn enwedig yr hyn a elwir yn "glefyd melyn," sef awydd i fyned oddi yma i wlad yr aur i gyfoethogi. Dychymmygaf fod llawer o'r Cymry hynaws ar eu ffordd yma er ys wythnosau bellach, a'r Duw grasol a'u cadwo rhag y drygau sydd o'u hamgylch, ac yn enwedig rhag y cholera morbus ar afon Missouri. O! William, dyna yr amser rhyfeddaf a'r a welais yn fy mywyd i weled gallu Duw a gallu y diafol. * * * * * * Mae fy ngwraig a Claudia fach yn iach, a'r holl

Saint, ac yn cofio atoch chwi a'ch teulu serchus, a'r holl Saint yna. Ffarwel yn awr, ebe

Eich brawd,

D. JONES.

D.S.—Ni aeth y milwyr Americanaidd â'r llythyr arall hyd yn awr, o herwydd y tywydd, ac felly anfonaf ef yn awr. Gobeithiaf fod y llythyron ereill a anfonais wedi eich cyrhaedd yn brydlawn. Mae hiraeth calon arnaf am eich cymmanfaoedd a'ch cymdeithas, eithr rhaid boddloni yn awr.

---

## CAPT. JONES AT J. DAVIS.

*Dinas y Llyn Halen, Ebrill* 12, 1850.

ANWYL FRAWD DAVIS,—Mae genyf gymmaint o bethau i'w hysgrifenu atoch erbyn hyn, fel nad wn beth i ddechreu braidd, eithr dywed yr Epistol hwn i chwi lawer o'm meddwl; ac heblaw hyn, yn fyr, dywedaf wrthych chwi a'r holl Saint anwyl yna, O, frodyr, byddwch ffyddlon a diwyd yn yr alwedigaeth nefol, i'r hon eich galwyd, a chwi yn gwybod nad yw eich llafur chwi yn ofer yn yr Arglwydd. Gwnewch iawn ddefnydd o eich amser yn ngwinllan Duw yna, cyn eich gelwir yma, oblegid dyddiau blinion sydd wrth law. Mae pob peth yn dda yma, a phawb o'r Cymru yn iach a chysurus yma.

Dychwelais yma o'r deau yn mis Chwefror, wedi teithio tua mil o filltiroedd, a bod o fewn i lai na chan milltir i drigle y Madogiaid, fel y'm hysbyswyd wedi hyny gan Indiad a fu yn eu plith. Nid allaswn fyned yn mhellach, o herwydd i'n ceffylau a'n hymborth ballu, a'r tywydd gwlawiog yn diluwio y wlad. Buom braidd colli ein bywydau yn teithio dros y mynyddoedd eiryawg am gannoedd o filltiroedd, drwy eira o dair i wyth troedfedd o drwch, ac yn cysgu ynddo y nos heb amgen na blanket i'n cuddio. Gadawem ar ol ambell ddydd hanner dwsin o'n ceffylau a mulod i drigo, neu yn ysglyfaeth i'r bleiddiaid. Buom am amryw ddyddiau heb ddim bwyd, cyn cyrhaedd tref Utah wrth ddychwelyd; cewch hanes ein darganfyddiadau i raddau yn yr Epistol, ond nid yw yn amser i ddweyd y cyfan i'r byd yna. Bwriadwn

gyflawni amcan yr anturiaeth hon etto, efallai eleni; o'r hyn leiaf, ni roddwn i fyny nes cael gafael ar y Madogiaid, a chael prif ffordd yn agored i'r Saint ddod o Gymru dros gledrffordd Panama, i Gulfor California, i fyny yr afon Colorado, ac yna dros y tir i sefydliadau y Saint, pa rai a fyddant gerllaw i'r porthladd ag y tiria yr agerfadau oddiyno hyd yma yn mhob dyffryn cyn hir. Mae bwriadau daionus Duw at hen hîl Gomer, yn cael eu hamlygu yn rhyfedd a chyflym i'n hanwyl Lywydd ac i ninnau. Anwyl Saint, cofiwch a gwnewch y cynghorion a roddais i chwi yna. Perchwch yr offeiriadaeth, a gweddiwch droswyf finnau a'ch gilydd.

Wyf, eich brawd yn y cyfammod newydd,

D. Jones.

D.S.—Pa fodd y gwna yr Udgorn swnio? Anfonwch ef yma bob cyfle a gaffoch. Da chwi, gwnewch eich goreu droswyf gyda fy llyfrau i, ac anfon yr arian; bum ar y daith uchod ar fy nghost fy hun, ac af felly etto cyn hir.

---

## LLYTHYR MRS. LEWIS AT J. DAVIS.

*Dyffryn y Llyn Halen, Ebrill* 10, 1850.

Hynaws Frawd yn Nghrist,—O'r diwedd dyddiaf fy llythyr o'r lle dedwydd ag yr hiraethais lawer am ei weled, ac y torais trwy lawer o rwystrau i'w gyrhaeddyd; ac er nad nefoedd berffaith yw hon, na phawb ynddi yn berffaith; etto, nid yw yn edifar genyf ddyfod yma, ac nid yw y drygau a brophwydwyd wrthyf yna am y lle hwn na'i drigolion wedi eu cyflawni; a chredaf mai fy nyled i'm Duw da a'i achos, yw anfon fy nhystiolaeth yn ol, er mwyn y rhai ni chawsant brofiad fel myfi, ac fel yr ymgalonogont hwythau hefyd i ddod yma.

Ni ddysgwyliwch i mi roddi hanes manwl am le ag sydd mor llawn o ryfeddodau â hwn, cewch ychwaneg gan ereill; ond hyn a ddywedaf, fel brenines Sheba gynt, na fynegwyd i mi yr hanner o ddaioni y lle hwn a'i breswylyddion. Mae y Ddinas yn cael ei hadeiladu yn gyflym wyrthiol, a'r wlad oddi amgylch yn cael ei llafurio yn anhygoel. Mae yma addoldy cyflens wedi ei orphen,

yn yr hwn y cyfarfyddwn ag amryw filoedd o Saint anwyl bob Sul o bob gwlad, ac y clywwn lais rhagorolion daear, a'u hanwyl Lywydd Brigham Young a'i gynghoriaid, yr apostolion, ac ereill, yn ein dysgu yn nghyfraith y nefoedd gyda phleser a melysder mawr i mi, ac yn arddangos mawr allu doethineb a chariad Duw yn nhrefn yr iachawdwriaeth; ac nid yn unig dysgir pobl yma a hoffant y ddysgeidiaeth nefol, eithr mwy na'r oll yw fod y cyfan yn ymagweddu yn gyferbyniol, a heddwch, ffyniant, a chariad yn teyrnasu, a Duw yn cael ei foli fwy-fwy am y waredigaeth hon. Ni welais feddwyn yn y lle, na neb yn cweryla a'u gilydd; yn unig clywais am ryw un yn bwgwth rhoi arall yn y cwrt, oni bai fod arno ormod cywilydd bod yn gyntaf un yn y lle i wneyd hyny. Ni chlywaf byth na llw na rheg yn yr heol; dim un llofrudd na lleidr nid oes, ar a wn, yn y lle, nac un anfoesoldeb ni welais; ac am y swyddwyr uchaf yma, maent yn hynod o ostyngedig, llariaidd, a duwiol,—fel tad i'w blant yw eu hymddygiad oll, ar a welais. Ofnaf lawer fod clefydau, heintiau, tylodi, a gormes, yn achosi dyoddefiadau lawer i'm brodyr a'm chwiorydd anwyl yn yr efengyl yn Nghymru, yr hyn sy'n peri i mi ewyllysio a gweddio llawer am gael eu gweled yn y lle dedwydd hwn wrth y miloedd. Buan y delo goreuon Cymru yma oll, ac wed'yn bydd lle. Nid oes yma neb yn cardota, na neb yn dlawd arno. Mae y dynion a ddaeth yma yr un pryd â mi, yn gymmaint freeholders, fel mai anhawdd i mi i'w cael neb i lafurio fy nhyddyn. Amser prysur i hau yw yn awr yma. Cyflogau gweithwyr sydd yma yn ddau i dri dolar y dydd, a gwaith a bryna yr hyn ni cheir am aur. Mae yr holl Gymry a ddaeth yma yn gwneyd yn dda, ac yn barchus iawn gan bawb. Ffermiwn gyda ein gilydd "ar lan yr Iorddonen," a gelwir y lle yn "Gymru Newydd." Mae Capt. Jones newydd ddychwelyd o fod yn chwilio am yr Indiaid Cymreig. Ar frys yr ysgrifenaf, gan fod y post ar gychwyn. Ysgrifenaf atoch chwi, o herwydd y gobeithiaf fod fy mherthynasau ar y ffordd yma.

Os na bydd fy anwyl wr, tad, a'm chwaer wedi cychwyn oddi yna, dywedwch wrthynt, buan y delont; da fyddai genyf eu gweled yma, ynghyd â'm brodyr a'm perthynasau oll. Os cewch gyfle, cofiwch fiatynt yn serchus; a'm dymuniad calon yw ar iddynt oll ufyddhau i'r efengyl ar frys. Os dewiswch anfon fy nhystiolaeth hon iddynt, gobeithio y bydd o dan fendith Duw iddynt.

Dywedwch wrthynt hwy, ac wrth bawb a sonia am y Capt. Jones, nad yw efe wedi bod y dyn drwg ag y prophwydasant hwy am dano, ond hollol groes yw ei ymddygiad hyd yn hyn. Cawsom ni oll ef yn garedig a defnyddiol, a'i holl ymddygiad fel Tad at ei blant, a mawr yw ein dyled i ddiolch iddo ac i'r Duw a'i danfonodd yn arweinydd daionus i ni. Nid yw efe wedi cael, nac wedi ceisio dim o'm harian i, ac ni chlywais fod neb o'r cwmni yn golledwr o un geiniog o'i herwydd; a'n gweddi oll yw, ar i Dduw ei fendithio â'r iechyd a gallodd wrth ein gwasanaethu ni, a thalu iddo yn y byd a ddaw.

Anwyl frawd, anogwch yr holl Saint, droswyf fi, i barhau yn ffyddlon yn yr eglwys hon, canys sicr wyf mai dyma grefydd Iesu Grist.

Cofiwch fi yn serchus atoch chwi a'r holl Saint.

Eich chwaer yn y cyfammod newydd,

ELIZABETH LEWIS.

JOHN DAVIS, ARGRAFFYDD, MERTHYR-TYDFIL.